

Darganfod bywyd mewn colled

Notre Dame

Dim ond hel meddyliau oeddwn i yn ystod oriau'r nos.

Diau y bydd i lawer ohonom weld yn ninistr eglwys Gadeiriol Notre Dame ddameg neu ddarlun o'n hoes.

Mewn ychydig o oriau cafodd adeilad a fu'n sefyll ar ynys yn yr afon Seine ers canrifoedd ei ddifa. Bu'r adeilad a ddatblygodd i'r ffurf yr oeddem ni yn ei adnabod cyn y tân yno, rhywsut, yn bwrw ei gysgod mawreddog dros werin Paris ers 850 o flynyddoedd.

Llithrodd y canrifoedd heibio. Troediodd brenhinoedd, ymerawdwr ac ymerodraethau, chwyldrowyr a chwyldroadau heibio i'r fangre cyn cilio i'r llwch drachefn. Enwau yw llawer ohonynt i ni bellach – os oes cof amdanynt o gwbl. Anfarwoldeb mewn cofnod yn llyfrau hanes.

Ond safodd yr adeilad.

Bu'n dyst – pe meddai ar gof, ar reswm, ar ddeall – i ryfeloedd a helyntion di-rif, a'i hadeiladwaith mawreddog yn atgoffa bonedd a gwrêg bod urddas mewn addoliad, bod Un mwy oedd yn galw ac yn teilyngu mawl.



Yn y 3ydd Ganrif sefydlwyd tystiolaeth Gristnogol yn yr ardal hon o Gâl gan Sant Dionysius. A phery enw Sant Denis, fel y caiff ei adnabod gennym ni heddiw, yn fyw yng ngwreiddyn hanes Paris ei hun. O'r ganolfan gynnar hon cyhoeddwyd efengyl gras.

Sefydlwyd eglwys.

Daeth pobl at ei gilydd oedd wedi eu hargyhoeddi gan rym neges y pregethwyr cynnar rheiny.

A thrwy helyntion o bob rhyw, ac erledigaethau llymion parhaodd elfennau o'r dystiolaeth gynnar hynny hyd yn awr.

Newidiodd ffasiwn "meddwl modern" cenedlaethau'r byd ond safodd yr adeilad, rhywsut, yn dystiolaeth barhaol bod Un Ffydd, Un Arglwydd ac Un Bedydd yn sefyll yn argyhoeddiad yr eglwys ei hun ym mhobman ac ym mhob oes yn obaith i'r ddynolryw.

Heno fe'i difethwyd. Fe'i llosgwyd.

A bellach saif sgerbwd di-lun ar gefnlen Paris yn dystiolaeth i freuder bywyd ei hun. Cwmpo y bydd popeth daearol yn y diwedd. Nid oes ddinas barhaus...

(parhad ar y dudalen 2)

Croeso i Gymdeithasfa'r De, Nantgaredig – 1-2 Mai, 2019

Cynhelir Cymdeithasfa'r De o Eglwys Bresbyteraidd Cymru eleni yng nghapel Nantgaredig, Sir Gâr ar y 1af – 2ail o Fai 2019.

Ynghyd ag eisteddiadau arferol y Gymdeithasfa, cynhelir dau gyfarfod cyhoeddus, sef Cyfarfod pryd y bydd y Parch Evan Morgan, Caerdydd yn trosglwyddo'r Llywyddiaeth i'r Parch Iain Sims, Llandeilo. A gweinyddir y Cymun ar brynhawn Dydd Mawrth.


Bydd croeso cynnes yn eich disgwyl gan Henaduriaeth Myrddin ynghyd â chynrychiolwyr o'r Gogledd a'r Dwyrain.

Y mae'r lle prydferth hwn yng nghanol Dyffryn Tywi, ar briffordd yr A40, o fewn rhyw bum milltir i Gaerfyrddin. Saif y capel ar sgwâr y pentref.

Mae Methodistiaeth wedi'i hen wreiddio yn yr ardal hon. Yn ôl yr hanes, bu capel yma oddi ar 1758 adeg pan nad oedd llawer o gapeli yn y wlad.

Mr Evan Richard, Glantwy fu'n arolygu'r gwaith, bryd hwnnw a thrwy ei ymdrechion ef, yn bennaf, y codwyd y capel cyntaf. Yr oedd adeiladu capel yr adeg hon yn orchwyl anodd a goresgynwyd llawer o wrthwynebiad ac anawsterau.

Bychan oedd nifer yr addolwyr a phobl dlawd oeddynt.



Methodist Chapel, Nantgaredig by John Lord - geography.org.uk/p/3610103

Roedd yn anodd dod o hyd i ddarn o dir addas, heb sôn am dalu amdano. Ond capel a fynnai Evan Richard. Pan aeth at ryw ŵr bonheddig, oedd yn byw'n lleol, i ofyn am gymorth i adeiladu'r capel, cafodd yr ateb a ganlyn, "Nid oes eisiau'r penboethiaid hyn yn yr ardal hon o gwbl. Os ewch chwi ymlaen i'w godi, mi ddanfonaif fi ddynion yn y nos i'w dynnu i lawr. Ateb Evan Richard oedd, "Syr, gwaith y diafol fyddai hynny, ond ar eich gwaethaf chwi a'r diafol, y mae capel i gael ei godi."

Gwiredwyd breuddwyd yr hynafgwyr a chodwyd y capel, sy'n dal hyd heddiw yn gapel llawn gweithgarwch, cyfeillgarwch a haelioni.

Rhaid bod yr ardal a'r bobl wrth fodd gweinigion yr oes a fu, oherwydd bu dau ohonynt, sef y Parchedigion Isaac Davies a W. Trefor Jones wasanaethu yno am dros ddeugain mlynedd.

Sonnir am y ddau, yn yr ardal hyd heddiw. Gwŷr arbennig, bugeiliaid ffyddlon a gweision diflino i Grist.

Ganwyd y gweinidog a'r bardd, James Eirian Davies ar 28ain o Fai 1918 i Rachel a Dafydd Davies. Roedd y ddau yn weision ar fferm y Llain, Nantgaredig. Bu farw ei frawd Emrys dan amgylchiadau echrslon pan foddwyd ef

(parhad ar y dudalen 2)

Sdim uffern o ots gen i

Orléan. Ffrainc. 1939.

Roedd cymylau'r Rhyfel yn crynhoi. Ond beth oedd hynny i dri o laslanciau ifanc yn llawn o egni a hwyl drygiog? A beth oedd hil na chrefydd rhwng ffrindiau? Nid oedd Natsiaeth a chasineb tuag at Iddewon wedi hydreddio'r ardal nac wedi effeithio ar y tri chyfaill.

Sut oedd treulio amser pan oedd amser yn hir a dychymyg yn fyw?

A dyma'r pwyllgor o dri yn dod i gytundeb am her a hwyl y prynhawn.

Byddai'r tri yn eu tro yn mynd i mewn i'r eglwys a mynd i mewn i'r gyffesgell. Yno yn y tawelwch byddai'r tri yn ceisio cynhyrfu'r offeiriad yr ochr draw i'r llen drwy gyffesu'r anfoesoldeb mwyaf y medrant feddwl amdanynt.

Aeth y ddau ffrind yn eu tro ac yna daeth cyfle Aaron i ddangos ei ddewrder a'i ddychymyg. Yno yn y tawelwch dechreuodd adrodd ei restr o bechodau dychmygol dychrynlyd.

Ni lwyddodd yr un o'r tri i gynhyrfu'r Tad oedd wedi eistedd yn amyneddgar a gwrandao arnynt.

Croeso i Gymdeithasfa'r De (parhad)

tra roedd yntau ac Eirian yn nofio yn yr Afon Tywi, ger y Llain.

Cysurwyd ef gan deulu'r capel lleol a chafodd yr eglwys cryn ddyllanwad ar ei benderfyniad i fynd yn Weinidog.

Addysgwyd Eirian yn Ysgol Gynradd Nantgaredig ac yn Ysgol Ramadeg y Frenhines Elizabeth, Caerfyrddin. Aeth i Drefeca wedyn, i ddilyn cwrs i'w gymhwysu'i hun at waith y Weinidogaeth. Wedi hynny dilynodd cwrs gradd ym Mhrifysgol Abertawe ac aeth ymlaen i gwblhau ei hyfforddiant diwinyddol yng Ngholeg Diwinyddol Unedig, Aberystwyth.

Ordeiniwyd ef ym 1949 ac roedd yn gyfoeswr ac yn gyfaill i'r gweinidog cyntaf a gofiau yn fy nghapel adref, y diweddar Parch Alun Davies. Ordeiniwyd y ddau'r un flwyddyn a derbyniodd y ddau alwad i ofalaethau yn agos i'w gilydd.

Bu Eirian yn Weinidog yn Hirwaun a Phenderyn yn Nyffryn Cynon, Brynman a Bethesda, Y Wyddgrug a Nercwys yn Sir Fflint. Bu farw yn 1998 ac mae yna blac coffa iddo yn y capel.

Gobaith yr eglwys leol a Henaduriaeth Myrddin yw y byddwch yn ystod eich ymweliad yn profi ac yn derbyn nid yn unig o letygarwch hael y fro ond y byddwn hefyd yn profi benthith yr Arglwydd ar ein holl weithgareddau ac y cawn ein hysbrydoli o'r newydd yng ngwasanaeth ein Harglwydd Iesu Grist.

**Parch Ian Sims,
Llandeilo a'r Arfordir**

Derbyniodd y tri'r un penyd i'w gyflawni.

Yr oeddynt i gerdded i flaen yr eglwys ac edrych ar ddelw o Grist wedi ei groeshoelio oedd gerllaw'r allor. Yna yr oeddynt i benlinio gerbron yr allor. Ac wedi plygu roeddynt i edrych ar y cerflun a dweud : 'Iesu. Dwi'n gwybod dy fod wedi marw drosaf. A does dim uffern o ots gen i am hynny.'

Felly dyma Aaron yn mynd at yr allor. Aeth yn ei'ha' hyderus. Wedi'r cyfan doedd y penyd oedd wedi ei osod iddo ddim yn rhy anodd.

Gerbron yr allor, edrychodd i fyny a gwelodd y goron ddrain a'r dwylo briwedig, a'r wyneb dolurus. A dywedodd am y tro cyntaf, 'Iesu. Dwi'n gwybod dy fod wedi marw drosaf. A does dim uffern o ots gen i am hynny.'

Yna dywedodd yr eilwaith y geiriau a ddsygwyd iddo.

Ond ar y trydydd tro llwyddodd i fynd mor bell a dweud, 'Iesu. Dwi'n gwybod dy fod wedi marw drosaf. A does dim ...'

Roedd y distawrwydd yn syfrdanol.



Flwyddyn yn ddiweddarach bedyddiwyd Aaron. Dewisodd enw newydd iddo'i hun – Jean-Marie.

Ddegawdau yn ddiweddarach, mewn Homili yn Eglwys Gadeiriol ym Mharis, dywedodd y pregethwr, neb llai na'r Cardinal, yr Archesgob Jean-Marie Lustiger, ei fod yn gwybod bod yr hanes yn wir. Ef ei hun oedd yr Aaron hwnnw.

A ninnau'n troi i ddathlu'r Pasg pan fydd wyau a gwyliau a phrysurdeb yn llenwi'n dyddiau, tybed nad ydym wedi meddwl o ddiffri am yr hyn oedd yn sail i'r dathliadau hyn a'i bwysigwydd yng nghalendrau'n gwlad? Wrth geisio esbonio beth a ddigwyddodd ar Fryn Calfaria y Pasg cyntaf hwnnw esboniodd un o awduron cynharaf y Testament Newydd sut "Yr oedd Duw yng Nghrist yn cymodi'r byd ag ef ei hun". Beth tybed yw arwyddocâd y datganiad hwn i ni?

A tybed faint ohonom, pe baem yn sefyll wyneb yn wyneb â Christ, fel y byddwn oll (yn ôl cred Cristnogion ar hyd y canrifoedd) yn ei wneud rhyw ddydd, fyddai'n medru dweud wrtho, 'Iesu. Dwi'n gwybod dy fod wedi marw drosaf. A does dim uffern o ots gen i am hynny.'

Watcyn James

Darganfod bywyd mewn colled (parhad)

Diau y bydd y secwlarwyr mwyaf pybyr hefyd yn gweld yn ninistr y Notre Dame ddameg. Dameg o hen greddau, o hen arferion sy'n perthyn i orffennol Ewrop – syniadau sydd wedi sychu a chrebachu fel prenau nenfwd y gadeirlan ei hun. Ac efallai y byddant yn meddwl ynddynt eu hunain, os caiff yr adeilad ei chodi drachefn y bydd yn dystiolaeth i ddycnwch y natur ddynol a'i hawydd i oroesi.

Efallai y bydd eraill am groesawu'r ail-adeiladu am ei fod yn rhyfeddod pensaernïol, yn rhan o hanes a diwylliant Byd-Cred Ewropeaidd, sy'n rhan anorfod o'n hanes ni ein hunain. Er nad ydym o angenrheidrwydd wedi ymweld â'r safle, neu heb erioed ymfalchïo mewn adeiladau crand a mawreddog yr Eglwys Gatholig Ewropeaidd a bod ein capeli bach diaddurn yn ymddangos yn ddibris yn eu hymyl.... Eto, y mae darganfod bod gennym gyswllt hanesyddol a diwylliannol – o ran celfyddyd a cherddoriaeth a phensaernïaeth a harddwch gogoneddus yr adeiladau gwyh – fel darganfod perthynas o bell. Perthynas sydd rhywsut er yn angof o'n llinach ni o'n teulu yn perthyn ac yn ffurfiannol yn ein hanfod ein hunain.

Bydd, fe fydd adeiladu drachefn. Ac o'r

llwch fe ddaw ymhen y rhawd adeilad hen, newydd i lenwi ei le yn ninas Paris. A bydd y digwyddiad trist hwn yn rhan o'i hanes i'r dyfodol.

Ac yn yr ail-adeiladu bydd tystiolaeth newydd i sail ein ffydd – bod Un a ddinistriwyd, heb degwch na harddwch i'n denu ato wedi gorchfygu angau trwy ei nerth. Yn wir er ei ddfia na allodd angau du, ddal Iesu'n gaeth. Yn ei atgyfodiad Ef caed corff o'r bedd wedi ei wisgo ar ei newydd wedd ar gyfer byd newydd.

Ac yn ei atgyfodiad ef ei hun, gwelwn ryfeddod ein gobaith ni.

Caiff y rhai sydd yng Nghrist, yn ôl y Testament Newydd, gorff newydd. Bydd, fe fydd parhad gyda'r hen. Hynny yw, bydd ffurf yn bod y gallaf adnabod fy hun wrtho. Ond bydd ar ei newydd wedd, "yn debyg iddi Harglwydd yn dod i'r lan o'r bedd..."

Corff newydd o'r hen. Corff ar gyfer byd newydd. Corff newydd fydd yn dystiolaeth barhaol i ddaioni yr Un Arglwydd, yr Unig Frenin, yr Unig Grist sydd i lywodraethu mewn ysblander gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân drwy bob oes ac i dragwyddoldeb.

Ie, dim ond hel meddyliau oeddwn i yng nghanol nos!